# Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

## Cofnodion (RDC(3)-20-08)

Dyddiad: 27 Tachwedd 2008
Amser: 8:45 - 8:50 am
Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, Y Senedd

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Alun Davies, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mick Bates, Sir Drefaldwyn
Leanne Wood, Canol De Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Claire Morris, Clerc
Meriel Singleton, Dirprwy Glerc

### 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Brynle Williams a Rhodri Glyn Thomas. Roedd Leanne Wood yn dirprwyo ar ran Rhodri Glyn Thomas.

### 2: Cynnig o dan reol 10.37 o'r Rheolau Sefydlog i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 3

2.1 Symudodd y Cadeirydd gynnig, o dan Reol Sefydlog 10.37(vi), i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer Eitem 3, er mwyn caniatáu i'r pwyllgor drafod materion yn ymwneud â'i adroddiad ar ad-drefnu ysgolion yng nghefn gwlad Cymru.

2.2 Cytunodd y pwyllgor ar y cynnig ac aeth i sesiwn breifat.

### 3: Trafod adroddiad yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig ar Ad-drefnu ysgolion gwledig

3.1 Cyflwynodd y Cadeirydd yr adroddiad drafft ar ad-drefnu ysgolion gwledig a gofynnodd am sylwadau gan Aelodau.

3.2 Cytunodd y pwyllgor ar yr adroddiad, a fyddai wedyn yn mynd i'r Pwyllgor Cynaliadwyedd i'w gymeradwyo.